**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/CS/1957/14

Aelodau a Swyddogion sy'n Arwain ar Gynllunio
Awdurdodau Lleol Cymru
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

14 Mai 2014

Annwyl Gyfeillion,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar am y stormydd a welwyd ar arfordir Cymru yn ystod y gaeaf. Er fy mod yn sylweddoli nad oes gan bob un o'ch awdurdodau arfordir, credaf ei bod yn bwysig bod yr holl Aelodau Cabinet sy'n gyfrifol am gynllunio yn gwybod am y prif negeseuon sydd yn yr adroddiad hwnnw am y perygl cynyddol o lifogydd yng Nghymru. Dylech roi sylw penodol i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'r angen i ymaddasu'n lleol wrth ichi ystyried lle y dylid datblygu yn y dyfodol, gan wneud hynny yn eich Cynlluniau Datblygu Lleol ac wrth wneud penderfyniadau'n ymwneud â Rheoli Datblygu.

Mae copïau o'r adroddiad i'w gweld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn y cyfeiriad hwn: http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-warnings/recent-flooding-incidents/wales-coastal-flooding-review-phase-2-report/?lang=cy

Mae'r adroddiad hwn yn gyhoeddiad amserol sy'n ein hatgoffa o bwysigrwydd polisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru, lle'r argymhellir y dylid bod yn rhagofalus mewn perthynas â datblygu a pherygl o lifogydd; nodir y polisi hwnnw yn y ddogfen Polisi Cynllunio Cymru ac yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd.

Nod y dull rhagofalus hwnnw yw ceisio osgoi lleoli datblygiadau newydd mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl, mae'n pennu cyfres o brofion y mae'n rhaid eu cynnal er mwyn gweld a oes modd lliniaru'r perygl o lifogydd yn briodol yn ystod oes y datblygiad, a sicrhau na fydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at ragor o lifogydd yn rhywle arall. Gallai'r penderfyniadau a wneir heddiw olygu y gallai'r tai hynny fod yma o hyd ymhen 100 mlynedd. O'r herwydd, mae'n bwysig sylweddoli y gallai fod mwy o risg i

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.carl.sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

ddinasyddion Cymru yn y dyfodol yn sgil y newid yn yr hinsawdd os na chymerir camau priodol yn awr.

Amgaeaf gopi o'r llythyr a anfonwyd gan Brif Gynllunydd Llywodraeth Cymru at Brif Swyddogion Cynllunio'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ym mis Ionawr eleni. Mae'n tynnu eu sylw at oblygiadau posibl y newidiadau arfaethedig i sicrwydd yswiriant ar gyfer eiddo sydd mewn perygl o lifogydd, ac at rôl a chyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf yn sylweddoli bod y llythyr hwnnw'n un eithaf technegol ei natur; ond mae'r Atodiad iddo'n nodi pa ffactorau y mae angen bod wedi'u hystyried wrth fynd i'r afael â'r perygl o lifogydd mewn datblygiadau newydd ac ag effaith unrhyw ddatblygiadau o'r fath o ran achosi llifogydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddiogelu ei chymunedau rhag y perygl o lifogydd, yn awr ac yn y dyfodol, gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael inni, sy'n cynnwys cynllunio defnydd tir. Rwyf yn pwyso arnoch i sicrhau eich bod yn craffu'n briodol ar unrhyw gynigion sy'n dod ger eich bron lle mae perygl o lifogydd yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.



**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.carl.sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*